# CYFARFOD COMISIWN DEMOCRATIAETH A FFINIAU CYMRU
# A GYNHALIWYD AM 10:00 AM AR 27 AWST 2025 YN CP2 a thrwy Teams

**Yn bresennol:** Bev Smith (Cadeirydd); Michael Imperato (Dirprwy Gadeirydd), Dianne Bevan, Frank Cuthbert, Ginger Wiegand, Bethan Williams Price, Karen Jones, Frances Duffy, Andrew Blackmore (Cadeirydd, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio)

**Swyddogion CDFfC a oedd yn bresennol:** Shereen Williams (Prif Weithredwr); Tom Jenkins (Pennaeth Arolygon); Dave Carr (Rheolwr Cyllid); Huw Blacker (Rheolwr Arolygon); Cher Cooke (Rheolwr Arolygon); Mark Pascoe (Pennaeth Iechyd Democrataidd); Roger Ashton-Winter (Uwch Reolwr Polisi Iechyd Democrataidd); Ellie Chapman (Cymorth Tîm)

**Amser Dechrau:** 10:28
**Amser Gorffen:**13:17

## 1. Datganiadau Buddiannau

**1.1.** **Nodwyd** bod Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn aelod lleyg o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2 Brif Gyngor y mae'r penderfyniadau yn yr Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn effeithio arnynt. Gan fod y Cadeirydd yn mynychu'r cyfarfod fel arsylwr ac nad yw'n ymwneud â'r broses benderfynu, **cytunwyd** nad oedd hyn yn wrthdaro buddiannau.

## 2. Briff gan y Cadeirydd

**2.1.** Roedd y briff a roddwyd yn gyfyngedig gan na fu cyfarfod gydag MK cyn cyfarfod y Comisiwn.

**2.2.** Mae'r broses recriwtio ar gyfer rôl y Cadeirydd yn parhau a diolchodd y Cadeirydd i'r Comisiynwyr am rannu'r swydd wag ar draws eu rhwydweithiau. Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 1 Medi a bydd cyfweliadau'n cael eu cynnal ar 15 ac 16 Hydref. Mae'r Comisiwn hefyd wedi talu am hysbysebu ar draws nifer o blatfformau.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2025

**3.1.** **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Gorffennaf 2025 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar fân gywiriadau.

## 4. Materion sy’n Codi

**4.1.** **(Mater 1)** Cafodd y Comisiwn 3 chais Rhyddid Gwybodaeth rhwng 24 Gorffennaf 2025 a 18 Awst 2025.

**4.2.** **(Mater 2)** Mae’r Comisiwn wedi cael eglurhad gan yr Is-adran Noddi ar sut i ddehongli’r eitem yn ymwneud â chyflogau uwch yn y llythyr cylch gwaith.

**4.3.** **Nodwyd** bod ymateb i’r llythyr cylch gwaith wedi cael ei anfon at Ysgrifennydd y Cabinet ac y byddai Cynllun Gweithredol 25/26 yn cael ei lunio a’i gyflwyno i gyfarfod mis Medi.

**4.4.** **(Mater 3)** Gofynnir i’r Comisiwn ystyried a chymeradwyo’r Adroddiad Blynyddol ar yr Iaith Gymraeg ar gyfer 2024/25.

**4.5.** Trafodwyd y gŵyn a dderbyniwyd y llynedd ynglŷn ag enwau etholaethau’r Senedd a’r canlyniad cadarnhaol a ddeilliodd o’r gŵyn honno. **Cytunwyd** y dylid ymhelaethu ar ganlyniad cadarnhaol y gŵyn yn yr adroddiad.

**4.6.** **Gweithredu**: Cynnwys naratif ychwanegol yn ymwneud â’r gŵyn a’r effaith y mae’n ei chael ar newid ymagwedd y Comisiwn at ei bolisi enwi.

**4.7.** **Gweithredu**: Ychwanegu enw Cymraeg Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru (CDFfC) at yr Adroddiad.

**4.8.** Trafodwyd p’un a ddylai sgiliau Cymraeg Comisiynwyr gael eu cynnwys ochr yn ochr â’r data ynglŷn â sgiliau Cymraeg staff. Er bod y safonau’n benodol i staff, **cytunwyd** y dylai’r adroddiad gynnwys y ffaith bod gan y Comisiwn Gomisiynydd sy’n siarad Cymraeg.

**4.9.** Cymeradwywyd yr adroddiad yn amodol ar fân newidiadau.

**4.10.** **(Mater 4)** Trafodwyd papur ar ddull cychwynnol y Comisiwn o ddatblygu ei Gynllun Cydraddoldeb Strategol yn dilyn llythyr gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol ynglŷn â chydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Darparodd y Prif Weithredwr ymateb gan esbonio’r gwall a arweiniodd at yr amryfusedd hwn. Mae GW hefyd wedi **cytuno** i gynorthwyo’r Prif Weithredwr â’r gwaith hwn. Mae rhywfaint o adborth cychwynnol eisoes wedi dod i law gan aelodau trwy e-bost a bydd yn cael ei ymgorffori yn y cynllun.

**4.11.** Yn ystod y drafodaeth, codwyd amcan posibl yn ymwneud ag

amrywiaeth aelodau etholedig. **Cytunwyd** y byddai'r Prif Weithredwr yn datblygu'r amcanion ymhellach ac y byddai cynllun drafft yn cael ei gyflwyno i'r Comisiwn.

**4.12.** **Cytunwyd** hefyd yn ystod y drafodaeth bod angen i'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb gael ei baratoi ar gyfer yr adroddiad ar benderfyniadau cydnabyddiaeth ariannol.

**4.13.** **Gweithredu**: Gofynnir i'r Prif Weithredwr ddatblygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol a chyflwyno fersiwn ddrafft i'r bwrdd.

**4.14.** **Gweithredu**: Cynnwys Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn yr Adroddiad Blynyddol Drafft.

**4.15.** Trafodwyd a oes unrhyw feysydd eraill nad yw'r Comisiwn yn ymwybodol bod ganddo ddyletswyddau i'w cyflawni ynddynt. Trafodwyd cynnal rhyw fath o archwiliad er mwyn i'r Comisiwn ganfod dyletswyddau a allai lithro trwy'r rhwyd.

**4.16.** **Nodwyd** y bydd y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr yn cyfarfod â'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a bod cyfarfod ar wahân yn cael ei drefnu ar gyfer KJ yn canolbwyntio ar y Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE) a'r WEP.

**4.17.** **(Mater 5)** Mae cynllun ymchwil ar gyfer 25/26 wedi cael ei lunio yn unol â'r gofyniad yn y llythyr cylch gwaith. Gofynnir i'r Comisiwn ystyried a chymeradwyo'r cynllun ymchwil.

**4.18.** **Nodwyd** bod y Comisiwn wedi cael cais i ymchwilio i ymarferoldeb Polisi Maint y Cyngor ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref, ac adlewyrchwyd hyn yn yr adroddiad.

**4.19.** **Nodwyd** y byddai angen i'r BRhE gytuno ar yr ymchwil sy'n ymwneud â'i swyddogaeth ac y byddai papur yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y BRhE i geisio ei gytundeb.

**4.20.** **Cytunwyd** i gynnwys yr amcan yn ymwneud â thaliadau ymaddasu a chyflogau uwch yn y cynllun ymchwil.

**4.21.** **Gweithredu**: Paratoi papur ar gyfer cyfarfod nesaf y BRhE ynglŷn â'r amcan ymchwil perthnasol.

**4.22.** **Gweithredu**: Ychwanegu'r adolygiad o daliadau ymaddasu a chyflogau uwch.

**4.23.** Trafodwyd cynnwys ymchwil ynglŷn â'r diffiniad o "lywodraeth leol

effeithiol a chyfleus” a ph’un a allai datblygu diffiniad gyfyngu ar benderfyniadau’r Comisiwn yn y dyfodol.

4.24. **Cytunwyd** i ddiwygio’r amcan ymchwil i ganolbwyntio ar y meini prawf a ddefnyddir i bennu “llywodraeth leol effeithiol a chyfleus”. Fe allai’r meini prawf hyn gael eu defnyddio gan y Comisiwn wrth gynnal arolygon etholiadol, a hefyd gan Brif Gynghorau pan fyddant yn cynnal arolygon cymunedol.

4.25. **Gweithredu**: Diwygio’r amcan sy’n ymwneud â “llywodraeth leol effeithiol a chyfleus”.

4.26. **(Mater 6)** Mae strwythur arfaethedig ar gyfer y Cynllun Corfforaethol wedi cael ei gynnwys. Gofynnir i’r Comisiwn ystyried a chymeradwyo’r strwythur.

4.27. **Nodwyd** bod rhywfaint o adborth ar y strwythur wedi cael ei dderbn trwy e-bost ac y bydd yn cael ei ymgorffori yn y cynllun.

4.28. **Cytunwyd** ar y strwythur a byddai’r Prif Weithredwr yn llunio’r cynllun a chyflwyno drafft cyntaf i’r Comisiynwyr.

4.29. **Gweithredu**: Gofynnir i’r Prif Weithredwr lunio’r Cynllun Corfforaethol yn seiliedig ar y strwythur cytunedig, gan ymgorffori’r adborth gan Gomisiynwyr.

## 5. Y Bwrdd Rheoli Etholiadol (BRhE)

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig mis Mehefin 2025 gan Gadeirydd y BRhE ac fe’i **nodwyd**.

5.2. **Nodwyd** nad oedd y parth Saesneg ar gyfer y platfform ar gael a bod dewis amgen wedi cael ei amlygu.

5.3. **Nodwyd** y bydd y Grŵp Llywio’n cyfarfod ym mis Medi i lunio cynllun diwygiedig ar gyfer y risg weddilliol o fewn y prosiect, gan gynnwys risg o ran cyflawni a risg ariannol.

5.4. Trafodwyd y costau ariannol gan ESMau wrth gofnodi data gan awdurdodau lleol ar y platfform.

5.5. **Nodwyd** bod rhan gyntaf yr adroddiad ar wahân sy’n cael ei lunio gan yr archwilwyr mewnol ar y Platfform Gwybodaeth am Etholiadau Cymreig (WEIP) bron â’i chwblhau a bod y pwyslais ar yr ymarfer caffael.

5.6. **Nodwyd** bod y BRhE yn trefnu gweithdai ar gyfer Swyddogion Canlyniadau a’u timau yn rhan o’r broses o baratoi ar gyfer etholiadau Senedd 2026.

Mae gweithdai'n cael eu cynnal yng ngogledd a de Cymru ym mis Hydref.

**5.7.** **Nodwyd** bod croeso i aelodau eraill y Bwrdd ymuno â'r gweithdai hyn.

**5.8.** Rhoddwyd gwybodaeth gefndir am StormID a'u profiad blaenorol o gynnal platfformau a ddefnyddir yn helaeth mewn cyfnod byr. Maen nhw hefyd wedi gweithio gyda nifer o sefydliadau sector cyhoeddus. **Nodwyd** bod ganddynt gytundeb partneriaeth ar waith eisoes gydag Ateb i helpu gyda'r ddarpariaeth Gymraeg. **Nodwyd** bod BW yn aelod cyswllt o ATE ac nad oedd yn ymwneud â dyfarnu'r contract.

**5.9.** **Nodwyd** y bydd y Ddogfen Cychwyn Caffael (PID) gyda StormID yn cael ei chymeradwyo erbyn diwedd yr wythnos hon.

## 6. Cydnabyddiaeth Ariannol

**6.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig mis Mehefin 2025 gan yr Uwch Reolwr Polisi Iechyd Democrataidd ac fe'i **nodwyd**.

**6.2.** **Nodwyd** bod RA-W ac FD wedi cyfarfod â swyddogion Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) yr wythnos ddiwethaf yn rhan o'u hymgysylltiad cyn-ymgynghori, a chytunwyd â'u dull o gyd-fynd â chyflogau cyfartalog etholwyr.

**6.3.** **Nodwyd** eu bod hefyd wedi trafod y gwaith ymchwil ynglŷn â thaliadau ymaddasu a'r adolygiad o gyflogau uwch.

**6.4.** **Nodwyd** mai'r prif newid yn yr adroddiad hwn yw'r uwchraddio blynyddol.

**6.5.** **Nodwyd** bod cyfrifoldeb statudol i ryddhau'r adroddiad drafft, y bydd cyfnod ymgynghori â rhanddeiliaid yn dod i ben ym mis Tachwedd ac y bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r bwrdd ym mis Rhagfyr gyda'r penderfyniadau terfynol.

**6.6.** Amlygwyd mai'r cynnydd blynyddol yw 6.4%.

**6.7.** Trafodwyd darn gan y BBC a gyhoeddwyd ychydig ddiwrnodau yn ôl ynglŷn â chronfa ddata Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE) y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), a oedd yn awgrymu nad oedd wedi'i phwysoli'n iawn i adlewyrchu cyflogwyr llai ac yn amau a oedd ASHE yn parhau i fod yn gyfradd addas i'w defnyddio. **Nodwyd** nad oes rhaid i'r Comisiwn ddefnyddio ASHE ac y bydd hyn yn cael ei adolygu y flwyddyn nesaf.

**6.8.** Trafodwyd elfen Cyd-bwyllgorau Corfforedig yr adroddiad sy'n awgrymu y gallent gynnwys arweinydd cynghorwyr yn unig, ond mae'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn datgan bod angen iddynt fod ag aelodau ar nifer o bwyllgorau eraill.

**6.9.** **Gweithredu**: Newid y geiriad i adlewyrchu'r ffaith bod Cyd-bwyllgorau Corfforedig yn sefydliadau mwy cymhleth bellach na phan oeddent wedi dechrau.

**6.10.** Trafodwyd y ffaith nad oedd y cynnydd 6.4% wedi'i gynnwys yn y ddogfen – er mwyn bod yn dryloyw, dylid ei ddangos i'r aelodau yn hytrach na bod angen iddynt gyfrifo'r cynnydd eu hunain.

**6.11.** Trafodwyd taliadau ymaddasu ym Mharagraff 4 – mae Llywodraeth Cymru wedi dweud ei fod wedi'i fwriadu ar gyfer Prif Gynghorau.

**6.12.** Yn amodol ar fân newidiadau, **cytunwyd** cyhoeddi'r Adroddiad Drafft ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus.

## 7. Adroddiad Monitro'r Gyllideb 2024-25

**7.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 27 Awst 2025 gan y Rheolwr Cyllid ac fe'i **nodwyd**.

**7.2.** **Nodwyd** bod y cyfrifon drafft hyn wedi cael eu cylchredeg i aelodau'r Bwrdd yn flaenorol.

**7.3.** **Nodwyd** bod oedi ar hyn o bryd wrth gwblhau'r archwiliadau hyn o ganlyniad i ddiffyg gwybodaeth gan Lywodraeth Cymru sy'n ofynnol ar Archwilio Cymru.

**7.4.** **Nodwyd** bod angen dogfennau ategol gan Lywodraeth Cymru ynglŷn â'r gwaith paratoi a wnaed ar gyfer symud CDFfC i mewn i adeilad Llywodraeth Cymru o Dŷ Hastings. Anfonwyd anfoneb, ond mae angen dadansoddiad cywir o'r costau hyn.

**7.5.** **Nodwyd** bod hyn wedi cael ei godi gydag MK yn Llywodraeth Cymru oherwydd heb y wybodaeth hon, bydd oedi cyn cyhoeddi'r adroddiad.

**7.6.** Yn amodol ar yr anfoneb sy'n angenrheidiol, mae'r Bwrdd wedi cymeradwyo'r adroddiad drafft.

## 8. Rheoli Risg – Y Gofrestr Risgiau

**8.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 27 Awst 2025 gan y Rheolwr Cyllid ac fe'i **nodwyd**.

**8.2.** **Nodwyd** bod y gofrestr wedi mynd yn ôl i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio i'w hadolygu ymhellach a bod y diwygiadau wedi cael eu gwneud.

**8.3.** **Nodwyd** y bu newid arall i risg CR6 yn sgil ei hailddrafftio gan Gadeirydd y BRhE i ddangos bod rheolaethau ychwanegol i liniaru'r risg. **Nodwyd** nad yw'r diwygiadau hyn yn effeithio ar y sgôr.

**8.4.** **Nodwyd** y bydd yr holl wybodaeth a ddarperir trwy'r platfform ar gael i'r

cyhoedd ac felly newidiwyd y geiriad oherwydd ei fod yn adlewyrchu risg lle nad oes un yn bodoli.

**8.5.** **Nododd** AB fod dull fesul cam o adolygu'r gofrestr hon.

**8.6.** **Nodwyd** y bydd archwiliad dwfn arall yn cael ei gynnal o'r gofrestr risgiau yng nghyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ym mis Medi.

**8.7.** **Nodwyd** mai CR6 yw'r risg sydd â'r sgôr uchaf ac y dylai'r Comisiwn fod yn ymwybodol o hyn ar yr adeg hon.

**8.8.** Trafodwyd CR1 a chynnal perthynas waith dda â Phrif Gynghorau ac uwch randdeiliaid. Fodd bynnag, mae'r holl gamau gweithredu'n cyfeirio at Lywodraeth Cymru yn unig a bydd angen diwygio hynny.

**8.9.** Trafodwyd CR5 a hygrededd y Comisiwn mewn perthynas ag ymgysylltu.

**8.10.** **Nodwyd** bod gweithdy'n cael ei gynnal ym mis Hydref ar barodrwydd i dderbyn risg, a fyddai'n gyfle da i gysylltu â'r gofrestr risgiau.

## 9. Adroddiad Cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 28 Gorffennaf 2025

**9.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 27 Awst 2025 gan y Rheolwr Cyllid ac fe'i **nodwyd**.

**9.2.** **Nodwyd** bod yr Adroddiad hwn yn ymdrin â dau gyfarfod a gynhaliwyd ar 17 Mehefin a 28 Gorffennaf.

**9.3.** **Nodwyd** bod y cyfarfod ar 17 Mehefin yn ymwneud â threfniadau TGCh y Comisiwn a'r Cytundeb Lefel Gwasanaeth gyda Chymwysterau Cymru.

**9.4.** **Nodwyd** bod y cyfarfod ar 28 Gorffennaf yn canolbwyntio'n bennaf ar fireinio'r cynllun archwilio mewnol a sicrhau ei fod yn gywir. Adolygwyd risg gorfforaethol ac yswiriant indemniad.

**9.5.** **Nodwyd** y bydd y pynciau hyn yn cael eu hadolygu ar ddiwedd y flwyddyn ariannol hon i weld a yw'r trefniadau TGCh cyfredol gyda Chymwysterau Cymru yn parhau i fod yn briodol o ystyried y cynnydd yng ngraddfa a chymhlethdod CDFfC.

**9.6.** **Nodwyd** bod y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio wedi cyfarfod â'r partneriaid archwilio mewnol newydd a bod disgwyliadau wedi cael eu gosod ynglŷn â gwaith.

**9.7.** Trafodwyd cymhlethdod cynyddol y sefydliad a sut mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio'n ei helpu i symud ymlaen.

## 10. Adroddiad Cynnydd Arolygon

**10.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 14 Awst 2025 gan y Pennaeth

Arolygon ac fe’i **nodwyd**.

**10.2.** **Nodwyd** bod y Pwyllgor yn parhau i aros am gyngor gan Lywodraeth Cymru ar enwau wardiau etholiadol o ran arolwg Rhondda Cynon Taf lle y cytunwyd ar newidiadau ond mae angen eglurder o ganlyniad i unrhyw newidiadau a wnaed.

**10.3.** **Nodwyd** bod un newid arfaethedig yn unig ar gyfer Sir Gaerfyrddin. Mae bellach mewn cyfnod 6 wythnos pan na all y Comisiwn wneud unrhyw beth, felly fe’i cyflwynir i gyfarfod mis Medi er mwyn i’r Bwrdd gytuno ar y newidiadau argymelledig.

**10.4.** **Nodwyd** bod y Pwyllgor Arolygon wedi cyfarfod ar 13 Awst i ystyried opsiynau arfaethedig ar gyfer yr Arolygon Etholiadol, ac y byddai’r Adroddiadau’n cael eu cyhoeddi ym mis Hydref.

**10.5.** **Nodwyd** bod sylwadau Comisiynydd y Gymraeg ar newidiadau arfaethedig i enwau wedi cael eu derbyn.

## 11. Adroddiad Cynigion Drafft – Sir Gaerfyrddin

**11.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig mis Awst 2025 gan y Rheolwr Arolygon ac fe’i **nodwyd**.

**11.2.** **Nodwyd** bod ambell ardal islaw/uwchlaw’r amrywiant 20% yn Sir Gaerfyrddin, sef Llwynhendy, yr Hendy, Llandeilo, Llanfihangel Aberbythych a Phen-y-groes.

**11.3.** **Nodwyd** mai dim ond 1 gynrychiolaeth oedd yn berthnasol gan Gyngor Sir Caerfyrddin, a oedd yn cynnwys pob un o’r 5 ardal.

**11.4.** **Nodwyd** ar gyfer Llwynhendy, sydd ag amrywiant 21%, mai’r opsiwn a ystyriwyd oedd cyfuno Llwynhendy a Bynea i gynnig ward â 3 aelod – gan ei lleihau o 4. Byddai hynny’n lleihau maint cyffredinol y cyngor i 74. Cynigiwyd yr enw unigol Llwynhendy a Bynea.

**11.5.** **Nodwyd** bod Cyngor Sir Caerfyrddin eisiau cadw 4 aelod ar gyfer y ward. Fodd bynnag, gan ei bod yn ardal wledig, teimlwyd bod 4 aelod yn ormod gan fod hynny’n cael ei neilltuo ar gyfer ardaloedd trefol mwy o faint, fel arfer.

**11.6.** **Nodwyd** nad oedd Comisiynydd y Gymraeg wedi gwneud unrhyw sylwadau ynglŷn â’r enw unigol.

**11.7.** **Nodwyd** bod gan yr Hendy yr amrywiant uchaf, sef dros 30%. **Nodwyd** bod 3 opsiwn wedi cael eu hystyried a’r opsiwn a ddewiswyd oedd rhif 1, sef cyfuno’r Hendy â Thŷ-croes.

**11.8.** **Nodwyd** mai dyma’r opsiwn a ffefrir gan Gyngor Sir Caerfyrddin, a oedd hefyd yn argymell bod y ward yn cadw 2 aelod etholiadol. Mae hyn yn gostwng yr amrywiant i 19.9%, ond mae’r ddwy o fewn yr un ardal

gymunedol, sy'n amgenach, er bod gan yr opsiynau eraill lefelau amrywiant gwell.

**11.9.** **Nodwyd** mai'r wardiau nesaf i'w hystyried oedd Llandeilo, Llanfihangel Aberbythych a Phen-y-groes. Ystyriwyd dau opsiwn a dewiswyd Opsiwn 1, sef cyfuno Pen-y-groes a Llandybïe, a Llanfihangel Aberbythych a Llandeilo gan nad oedd yn rhannu cymuned a dyma'r opsiwn a ffefrir gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

**11.10.** Trafodwyd y diffyg ymateb. Y prif reswm am hyn yw oherwydd nad oes llawer o ymatebion ar y cam ymgynghoriad cychwynnol gan nad oes unrhyw beth wedi'i gynnig eto a bydd opsiynau hysbysebu lleol yn cael eu defnyddio pan fydd yr arolygon ar y cam cynigion drafft.

**11.11.** **Nodwyd** y byddai'n ddefnyddiol i'r Comisiwn gael cofnodion y Pwyllgor Arolygon cyn cyfarfod nesaf y Bwrdd.

**11.12.** **Cytunodd** y Bwrdd ar y newidiadau arfaethedig.

**11.13.** **Nodwyd** bod 2 enw ward etholiadol nad ydynt wedi cael eu cymeradwyo gan Gomisiynydd y Gymraeg. O ran yr Hendy a Thŷ-croes, cynigiodd yr enw unigol Yr Hendy Tŷ-croes a **nodwyd** bod y fannod yn rhan annatod o'r enw.

**11.14.** O ran Lacharn, **nodwyd** nad yw Comisiynydd y Gymraeg yn credu bod angen 'Township' yn yr enw Saesneg.

**11.15.** O ran Sanclêr Llansteffan, **nodwyd** bod Comisiynydd y Gymraeg yn argymell Sanclêr / St Clears ond ei fod yn fodlon ar y cynnig i ddefnyddio'r enw unigol Sanclêr.

**11.16.** O ran Dyffryn y Swistir, **nodwyd** y cynigiwyd defnyddio'r enw unigol Swiss Valley, ond bod Comisiynydd y Gymraeg yn argymell Dyffryn y Swistir.

**11.17.** O ran ward Tyisha, **nodwyd** bod Comisiynydd y Gymraeg yn argymell Tyisa ond ei fod yn cydnabod bod y ffurf fwy tafodieithol 'Tyisha' yn cael ei defnyddio'n eang.

**11.18.** **Cytunwyd** ar y newidiadau arfaethedig i'r enwau, a derbyniwyd 'Township' yn yr enw Saesneg gan ei fod yn adnabyddus.

**11.19.** **Nodwyd**, yn dibynnu ar ba bryd y byddai'r Pwyllgor Arolygon yn cyfarfod, efallai na fydd digon o amser i enwau Comisiynydd y Gymraeg gael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor cyn iddynt fynd i'r Bwrdd.

## 12. Adroddiad Cynigion Drafft – Bro Morgannwg

**12.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig mis Awst 2025 gan y Rheolwr Arolygon ac fe'i **nodwyd**.

**12.2.** **Nodwyd** bod y cyfnod ymgynghori cychwynnol wedi dod i ben ar 16 Gorffennaf ac y derbyniwyd 16 o gynrychiolaethau. Dim ond 4 ardal yr oedd

angen rhoi sylw iddynt.

12.3. **Nodwyd** bod gan ward Llandŵ amrywiant o 42% ar hyn o bryd a dim ond 1 opsiwn a ystyriwyd, sef trosglwyddo cymuned Tregolwyn i ward gyfagos Saint-y-brid, gan gynyddu nifer yr aelodau o 2 i 3. **Nodwyd** y bydd aelodaeth gyffredinol y cyngor yn cynyddu o 58 i 59 a'i bod yn darparu ar gyfer amrywiant gwell sydd 19% yn is.

12.4. **Nodwyd** bod gan ward Gwenfô amrywiant 23% ar hyn o bryd. **Nodwyd** mai un o'r opsiynau oedd cyfuno Gwenfô â Sain Nicolas a Llancarfan – cymuned yr arferai fod yn rhan ohoni ac y mae wedi bod ar wahân iddi am un cylch etholiadol yn unig, felly nid oedd yn ddelfrydol eu hailuno.

12.5. **Nodwyd** nad oedd opsiwn 2, sef cyfuno Gwenfô â Llanbedr-y-fro, yn ddelfrydol o ganlyniad i'r cysylltiadau ffyrdd rhyngddynt. Opsiwn 3 oedd cadw'r trefniadau presennol oherwydd rhagamcanwyd y byddai'n lleihau ac yn dod o fewn amrywiant 20% erbyn 2030. Dyma'r opsiwn a ffefrir ac fe'i cefnogwyd gan y cynghorydd presennol. **Cytunwyd** mabwysiadu opsiwn 3.

12.6. **Nodwyd** bod ward Cosmeston ar amrywiant 61% ar hyn o bryd. **Nodwyd** bod y Pwyllgor yn cynnig cyfuno Cosmeston a Plymouth. Bydd hyn yn cadw nifer gyffredinol aelodau'r cyngor ac yn gwella cydraddoldeb etholiadol.

12.7. **Nodwyd** bod y ward nesaf, sef y Bont-faen, yn cael ei harwain gan gynrychiolaethau ac nad oedd angen ei hystyried yn ôl amrywiant. **Nodwyd** bod Cyngor Cymuned Pen-llin yn cynnig rhannu'r ward oherwydd eu bod yn teimlo bod eu llais yn gallu cael ei foddi'n aml gan ardal fwy y Bont-faen ac roeddent eisiau ffurfio eu ward eu hunain. **Cytunodd** y Pwyllgor ar hyn.

12.8. **Nodwyd** bod ward Illtud 20% yn uwch ar hyn o bryd a **chytunwyd** cadw'r trefniadau presennol oherwydd bydd yr amrywiant yn lleihau i lefel dderbyniol erbyn 2030.

12.9. **Nodwyd** bod dau enw y mae angen i'r Comisiwn eu trafod.

12.10. O ran Saint-y-brid, **nodwyd** bod Comisiynydd y Gymraeg wedi argymell dileu'r collnod o'r enw Saesneg gan nad yw wedi'i gynnwys ar yr arwydd ffordd.

12.11. **Cytunodd** y Comisiwn i ddileu'r collnod.

12.12. **Nodwyd** bod y newid arall yn ymwneud ag enw Sain Nicolas a Llancarfan. **Nodwyd** bod Comisiynydd y Gymraeg wedi argymell bod yr enw Cymraeg 'Sain Nicolas' a'r enw Saesneg 'St Nicholas' yn dderbyniol. **Cytunwyd** ar enw unigol, gan ddewis y ffurf Gymraeg Sain Nicolas.

12.13. **Cytunwyd** derbyn y cynigion a'r newidiadau perthnasol i enwau.

**13. Adroddiad Cynigion Drafft – Caerffili**

**13.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig mis Awst 2025 gan y Rheolwr Arolygon ac fe’i **nodwyd**.

**13.2.** **Nodwyd** bod dau opsiwn ar gyfer ward Cwm Aber. **Nodwyd** bod y Pwyllgor yn argymell Opsiwn 1, sef lleihau nifer yr aelodau etholedig o 3 i 2 er mwyn gwella cydraddoldeb etholiadol a lleihau maint y cyngor i 68, fel yr argymhellir gan y polisi maint y Cyngor.

**13.3.** Trafodwyd ward Crosskeys ac Ynys-ddu. Mae’r Pwyllgor yn argymell cyfuno’r ddwy ardal, ond **nodwyd** mai dyma’r unig opsiwn nad yw Llywodraeth Cymru yn ei gymeradwyo.

**13.4.** **Nodwyd** bod angen dybryd i fynd i’r afael â lefel yr amrywiant, felly dyma’r opsiwn a gynigir a chaiff y gymuned gyflwyno ei gwrthwynebiad iddo yn yr ymgynghoriad terfynol.

**13.5.** Trafodwyd ward Rhisga a chyfuno Dwyrain Rhisga â Gorllewin Rhisga. **Nodwyd** bod Rhisga wedi cael ei chyfuno’n un gymuned yn yr arolwg cymunedol o Gaerffili. **Nodwyd** mai’r opsiwn a gynigir yw eu cyfuno’n un ward Rhisga fawr â 4 aelod lle dylai’r ffiniau fod yn hawdd eu hadnabod.

**13.6.** Trafodwyd Aberbargod a Bargod oherwydd eu bod yn yr un gymuned a chynigir eu cyfuno’n un ward etholiadol.

**13.7.** **Nodwyd** bod dau enw y mae angen gwneud penderfyniad arnynt.

**13.8.** **Nodwyd** bod Comisiynydd y Gymraeg wedi gweithio gydag awdurdod lleol Caerffili ar safoni enwau lleoedd Cymraeg.

**13.9.** O ran ward Maesycwmwr, **nodwyd** bod Comisiynydd y Gymraeg wedi argymell defnyddio’r ffurf Gymraeg (Maesycwmwr) a’r ffurf Saesneg (Maesycwmer).

**13.10.** **Nodwyd** bod y Pwyllgor wedi cynnig cadw’r enwau dwyieithog presennol ar gyfer ward Cwm Darran. **Nodwyd** bod Comisiynydd y Gymraeg wedi argymell defnyddio’r ffurf unigol Cwm Darran.

**13.11.** Mae’r Comisiwn wedi **cytuno** i ddefnyddio’r enw Cymraeg unigol ar gyfer Maesycwmwr oherwydd ei fod yn cyd-fynd â pholisi’r Comisiwn i ddefnyddio’r ffurf unigol pan fydd angen. **Cytunwyd** defnyddio Cwm Darran gan fod dadl bod y rhai sy’n defnyddio’r ffurf Saesneg yn gyfarwydd â’r ffurf Gymraeg.

**13.12.** **Nodwyd** y bydd y papur newydd Caerphilly Observer yn cael ei ddefnyddio i hyrwyddo’r cynigion fel y bydd pobl yn ymwybodol ac yn cael cyfle i rannu eu safbwyntiau.

**13.13.** Trafodwyd lleihau nifer y cynghorwyr yng Nghwm Aber – mae colli cynghorwyr yn gallu bod yn eithaf dadleuol yn wleidyddol, ond mae'n rhaid i hyn fod yn unol â'r polisi maint y cyngor.

**13.14.** **Cytunwyd** â'r argymhellion arfaethedig.

**13.15.** **Nodwyd** y bydd trafodaeth yn cael ei chynnal y tu allan i'r cyfarfod i wneud yn siŵr bod methodoleg dda yn cael ei chreu er mwyn rhoi sicrwydd bod y wybodaeth berthnasol yn cael ei rhannu â'r Bwrdd fel y gellir gwneud penderfyniadau da heb ailadrodd yr hyn a ddywedwyd eisoes yn y Pwyllgor.

**14. Calendr Digwyddiadau**

**14.1.** Rhoddwyd ystyriaeth i'r Calendr Digwyddiadau a **chytunwyd** arno, yn amodol ar fân newidiadau.

**15. Unrhyw Fater Arall Perthnasol – Cyfathrebu a chyfryngau cymdeithasol**

**15.1.** Yn ystod trafodaethau â CLlLC yr wythnos ddiwethaf, **nodwyd** y soniwyd am neilltuo lle ar gyfer gweithdy yng nghynhadledd nesaf CLlLC oherwydd dyma'r adeg pan fydd y Comisiwn yn awyddus i gyhoeddi ei adroddiad penderfyniadau drafft cyn etholiadau 2027.

**15.2.** **Nodwyd** bod CLlLC a Llywodraeth Cymru yn cynnal digwyddiad menywod mewn arweinyddiaeth llywodraeth leol a bod y Comisiwn wedi gofyn am wahoddiad.

**15.3.** Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y bwrdd fod CL yn gadael y Comisiwn i wneud ei Gradd Meistr yn Llundain. Diolchodd y Cadeirydd i CL am ei gwaith yn y Comisiwn, yn enwedig yn ystod y 12 mis diwethaf wrth sefydlu'r swyddogaethau newydd, a dymunodd bob llwyddiant iddi wrth symud.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:** 24 Medi 2025